# Trefniadau Gwrth-dwyll

Cyngor Sir Ceredigion

Chwefror 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


Cipolwg ar yr archwiliad 4

Ein canfyddiadau 6

Argymhellion 11

Atodiadau 13

1 Ynglŷn â'n gwaith 14

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn 2020, fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru 15 o argymhellion yn ei adroddiad Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, a hynny er mwyn gwella'r ffordd y mae sector cyhoeddus Cymru'n mynd i'r afael â thwyll. Yn yr adolygiad hwn, fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau'r Cyngor i atal a chanfod twyll, gan ystyried yr argymhellion blaenorol hynny. Fe wnaeth yr archwiliad fwrw golwg ar:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- rheoli a rheolaeth risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithio; a
- llywodraethu.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae'r risg o dwyll yn fygythiad mwyfwy cyffredin i bron pob rhan o fywyd o ddydd i ddydd. Mae'r risg o dwyll yn amlwg ar draws pob agwedd ar y sector cyhoeddus. Yn yr adroddiad a gyhoeddodd yn 2024, Overview of the impact of fraud and error on public funds, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amlygu amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) bod twyll a gwallau wedi costio rhwng £55 biliwn ac £81 biliwn i drethdalwyr y DU yn 2023-24. Mae hyn yn awgrymu y gallai colledion trwy dwyll fod yn sylweddol i bob cyngor.

3 Mae trefniadau gwrth-dwyll cryf yn helpu'r Cyngor i ddiogelu ei arian a chynnal hyder y cyhoedd yn y modd y mae'n rheoli adnoddau. Maent hefyd yn helpu i ddangos bod y Cyngor yn atebol ac y gellir ymddiried ynddo.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â'i ddull dim goddefgarwch lle mae twyll yn y cwestiwn. Mae cyfrifoldebau swyddogion i lywio a chyflawni gweithgareddau gwrth-dwyll wedi'u nodi'n glir. Rhaid i'r holl staff gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll. Fodd bynnag, ceir bylchau mewn trefniadau cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg asesiad cynhwysfawr o'r risg o dwyll a chynllun cyflawni gwrth-dwyll. Ceir cyfleoedd hefyd i'r Cyngor fynd ati ymhellach i gryfhau ei wiriadau cyn cyflogi, y modd y mae'n rhannu cudd-wybodaeth a sut y rhoddir cyhoeddusrwydd i dwyll a ganfuwyd.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

5 Rydym wedi gwneud pum argymhelliad ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cryfhau proses y Cyngor ar gyfer datblygu ei Gofrestr Risg Twyll a datblygu cynllun gweithredu gwrth-dwyll i ymateb i'r risgiau a adnabuwyd;
- cynnwys arbenigwyr gwrth-dwyll pan fo'r Cyngor yn cyflwyno polisïau newydd neu'n newid systemau;
- adolygu prosesau cyn cyflogi i'w sicrhau ei hun bod digon o ystyriaeth a honno'n ystyriaeth gymesur i drefniadau gwrth-dwyll yn ei broses recriwtio;
- nodi'n glir beth yw dull y Cyngor ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd; a
- datblygu cynllun gweithredu o waith gwrth-dwyll ataliol.

# Ein canfyddiadau

## Arweinyddiaeth a diwylliant

6 Mae uwch arweinwyr yn pwysleisio dull dim goddefgarwch y Cyngor lle mae twyll yn y cwestiwn. Caiff yr ymrwymiad hwn ei nodi yn ei Strategaeth a Phrotocol Gwrth-dwyll, sy'n datgan na fydd twyll yn cael ei oddef. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y rhain wrthi'n cael eu hadolygu.

7 Mae rolau arwain ar gyfer gwaith gwrth-dwyll wedi'u diffinio'n glir. Y Swyddog Adran 151 sydd â chyfrifoldeb strategol am waith gwrth-dwyll, tra bo'r Prif Archwilydd Mewnol yn arwain ar gyflawni gweithredol. Mae'r strwythur hwn yn dangos bod atal twyll yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac yn cael ei gefnogi'n gorfforaethol.

## Fframwaith rheoli a rheolaeth risg

8 Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Cofrestr Risg Twyll fel ei asesiad o'r risg o dwyll. Goleuir y gofrestr gan risgiau hysbys o dwyll, gan gynnwys budd-dal tai, seiberdwyll a thwyll caffael. Mae asesiadau risg hefyd yn tynnu ar gudd-wybodaeth wrth-dwyll a rennir gan sefydliadau cenedlaethol.

9 Fodd bynnag, canfuom gyfleoedd i gryfhau cwmpas Cofrestr Risg Twyll y Cyngor. Fe gynhaliodd y Cyngor arolwg ymhlith ei reolwyr ar draws pob maes gwasanaeth i helpu i oleuo ei Gofrestr Risg Twyll. Er gwaethaf peth ymgysylltu cychwynnol ag arbenigwyr gwrth-dwyll, dim ond oddeutu hanner y rheolwyr meysydd gwasanaeth gwblhaodd yr arolwg. Mae'n bwysig i'r Cyngor asesu'r risg o dwyll ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, i oleuo gwaith gwrth-dwyll. Mae'r ymgysylltu anghyflawn gan reolwyr meysydd gwasanaeth yn cyfyngu ar ba mor gynhwysfawr y mae'r risg o dwyll yn cael ei hasesu drwy'r sefydliad cyfan. Gallai hefyd olygu nad yw risgiau posibl o dwyll yn cael eu hadnabod a'u lliniaru o fewn y cynllun gwaith gwrth-dwyll.

# Polisïau a hyfforddiant

10 Mae’r Cyngor yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll trwy hyfforddiant, ond gallai bylchau o ran diogelu polisïau newydd rhag twyll, gwiriadau recriwtio a chyhoeddusrwydd i dwyll fod yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau gwrth-dwyll.

11 Mae gan y Cyngor hyfforddiant gwrth-dwyll gorfodol i’r holl staff bob tair blynedd ac mae’n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll i staff newydd. Mae’r hyfforddiant hwn ar gael i gynghorwyr hefyd. Mae cyfraddau cwblhau’n cael eu monitro (cyfradd gydymffurfio o 81% ar adeg ein gwaith maes). Mae cynnwys cyrsiau’n cael ei ddiweddaru’n rheolaidd. Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cwblhau hyfforddiant yn ddiweddar hefyd i godi ymwybyddiaeth o waith gwrth-dwyll y Cyngor a’u rôl hwy ynddo. Mae dull y Cyngor o ymdrin â hyfforddiant yn atgyfnerthu hyder yn ei ddull dim goddefgarwch lle mae twyll yn y cwestiwn ac yn helpu i gadw staff a chynghorwyr yn effro i risgiau o dwyll.

12 Nid oes gan y Cyngor drefniadau systematig i sicrhau yr ymgysylltir bob amser â’r gwasanaeth Archwilio Mewnol i asesu prosiectau a pholisïau newydd ar gyfer risgiau posibl o dwyll. Mae’r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ceisio sicrhau ei fod yn ymwybodol o fentrau a pholisïau newydd i roi cyngor a sicrwydd, ond ni warentir y bydd wastad yn cael ei gynnwys nac y byddir yn ymgynghori ag ef bob amser. Heb yr ymwneud hwn, efallai na fydd gwendidau sy’n creu risg o dwyll mewn prosiectau a pholisïau newydd yn cael eu hystyried neu eu hadnabod yn llawn.

13 Cyn caniatáu i gyflogeion newydd ddechrau eu gwaith, mae’r Cyngor yn cwblhau cyfres o wiriadau cyn cyflogi, a nodir yn ei Bolisi Recriwtio Diogel. Fodd bynnag, nid oes gan y gwiriadau cyn cyflogi hyn ffocws penodol ar drefniadau gwrth-dwyll. Hefyd, nid yw’r Cyngor wedi gwerthuso pob swydd a rôl i adnabod y rhai â mwy o risg o dwyll. Gallai estyn ei wiriadau cyn cyflogi gryfhau trefniadau gwrth-dwyll ataliol y Cyngor ymhellach.

14 Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a ganfuwyd sy'n arwain at euogfarn droseddol. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi ei ddull o roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll arall a brofwyd. Mae diffyg dull cytunedig ar y cyd â'r pwyll dealladwy a arferir gan uwch swyddogion ynghylch cyhoeddi manylion achosion o dwyll, yn gallu cyfyngu ar atal twyll ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiant y Cyngor o ran canfod twyll.

## Capasiti ac arbenigedd

15 Mae gan y Cyngor arbenigedd a chapasiti i ymchwilio i dwyll. Er enghraifft, mae wedi dynodi rolau gwrth-dwyll ac wedi hyfforddi ymchwilwyr mewnol. Mae'r Cyngor hefyd wedi prynu capasiti arbenigol pellach i mewn i ymdrin â thwyll pan fo angen.

16 Er gwaethaf ei gapasiti i ymateb i dwyll, canfuom gyfleoedd i gryfhau ffocws y Cyngor ar atal. Nid oes gan y Cyngor gynllun gweithredu gwrth-dwyll blynyddol pwrpasol ag adnoddau ar gyfer gwaith ataliol sy'n ymateb i'r risg o dwyll. Yn lle hynny, mae gweithgarwch gwrth-dwyll wedi'i gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ehangach. Nid oes cyswllt clir rhwng risgiau o dwyll a adnabuwyd yn y Gofrestr Risg Twyll a chamau lliniaru yn y Cynllun Archwilio Blynyddol. Heb gynllun gwrth-dwyll penodol sy'n nodi'r adnoddau angenrheidiol ac amserlen ar gyfer cyflawni, ni all y Cyngor fod wedi'i sicrhau y bydd gwaith ataliol gwrth-dwyll yn cael ei gwblhau.

17 Mae gan y Cyngor gofnod o gamau gweithredu dilynol i ganfod twyll. Mae uwch swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd i fyfyrio ar waith gwrth-dwyll y Cyngor a dysgu oddi wrtho. Mae'r dull hwn o gymorth i ddysgu ac yn adnabod anghenion o ran darparu adnoddau. Fodd bynnag, canfuom gyfleoedd i'r Cyngor wella cysondeb ei werthusiadau ar ôl digwyddiadau twyll. Gall hyn helpu i gryfhau sicrwydd a chasglu gwybodaeth am gyfleoedd i wella.

## Offer, data a chydweithio

18 Mae'r Cyngor yn defnyddio offer paru data ac yn cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gwallau. Ymarfer paru data ar lefel y DU gyfan a gaiff ei redeg gan Swyddfa'r Cabinet ac sy'n coladu gwybodaeth gan gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill i adnabod anghysonderau a allai fod yn arwydd o dwyll yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn bwysig am ei bod yn helpu'r Cyngor i adfer ac atal colledion trwy adnabod hawliadau a thaliadau twyllodrus. Mae'r gwaith hwn yn diogelu arian cyhoeddus, yn cryfhau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn helpu i sicrhau tegwch ar draws y sector cyhoeddus.

19 Pan gyfyd cyfleoedd, mae'r Cyngor yn rhannu cudd-wybodaeth a data am dwyll gyda sefydliadau eraill ac yn gweithio gyda phartneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys y Gymdeithas Arloesi, Technoleg a Moderneiddio (SOCITM) a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC). Gallai'r Cyngor gryfhau ei ddull trwy gytuno a nodi ei drefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu cudd-wybodaeth gyda chyrff allanol.

20 Nid oes gan y Cyngor ddull cyson ar gyfer amcangyfrif colledion o ganlyniad i dwyll. Gallai nodi ei drefniadau ar gyfer cydweithio, rhannu cudd-wybodaeth ac amcangyfrif colledion o ganlyniad i dwyll helpu i fynd ati mewn modd cyson i wella effeithiolrwydd arferion meincnodi, rhannu mewnwelediadau a chydweithio gydag eraill.

## Llywodraethu

21 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael diweddariadau rheolaidd am waith gwrth-dwyll. Er enghraifft, mae'n cael diweddariadau Archwilio Mewnol chwarterol ac Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau ar lwythi achosion gwrth-dwyll.

22 Fodd bynnag, canfuom ddiffyg amcanion gwrth-dwyll penodol. Er bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn pennu targedau perfformiad ar gyfer ei raglen waith flynyddol yn y cynllun busnes, nid yw'n cynnwys amcanion na thargedau penodol ar gyfer gweithgareddau gwrth-dwyll. Heb gynllun gwrth-dwyll penodol ar gyfer gwaith ataliol, neu drefniadau i adrodd ar gynnydd wrth gyflawni, mae'n aneglur sut y gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Mae hyn yn amlygu cyfle sy'n cael ei golli i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyrwyddo safbwynt dim goddefgarwch y Cyngor ar dwyll ymhellach.

# Argymhellion

**A1** I wneud y Gofrestr Risg Twyll yn fwy cynhwysfawr, dylai'r Cyngor gryfhau'r broses ar gyfer ei datblygu trwy sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaeth yn ymgysylltu'n llawn â'r broses (**paragraff 9**).

**A2** Dylai fod yn ofynnol i feysydd gwasanaeth y Cyngor ymgysylltu ag arbenigwyr gwrth-dwyll y Cyngor wrth gyflwyno neu newid polisïau a systemau i sicrhau bod y risg o dwyll yn cael ei hasesu ac yr eir i'r afael â hi (**paragraff 12**).

**A3** Dylai'r Cyngor adolygu gwiriadau cyn cyflogi i'w sicrhau ei hun bod digon o ystyriaeth a honno'n ystyriaeth gymesur i drefniadau gwrth-dwyll yn ei broses recriwtio (**paragraff 13**).

**A4** Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau i sicrhau bod twyll yn cael ei atal i'r eithaf trwy nodi'n glir beth yw dull y Cyngor ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd (**paragraff 14**).

**A5** Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun gweithredu gwrth-dwyll penodol ar gyfer gwaith ataliol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau, a'r adnoddau y mae eu hangen i ymateb i'r risgiau yn ei Gofrestr Risg Twyll (**paragraff 16**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom archwilio trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol.

Digwyddodd y gwaith maes yn ystod mis Awst a mis Medi 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd y cwestiynau â meysydd allweddol gan gynnwys:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- fframwaith rheoli a rheolaeth risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithio; a
- llywodraethu.

### Meini prawf

Fe wnaethom seilio ein hasesiad ar safonau cydnabyddedig a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- argymhellion yn yr adroddiad Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2022, fel sail ar gyfer trefniadau gwrth-dwyll priodol;
- adolygiadau lleol blaenorol Archwilio Cymru o drefniadau gwrth-dwyll; a
- myfyrio ar yr egwyddorion yn yr adroddiad Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru gan Archwilio Cymru, yn arbennig elfennau allweddol o ddiwylliant gwrth-dwyll effeithiol.

# Dulliau

Fe ddefnyddiom ni ddau ddull i gasglu tystiolaeth:

- **Adolygiad o ddogfennau** – Fe wnaethom archwilio dogfennau mewnol, gan gynnwys strategaeth a phrotocol y Cyngor ar wrth-dwyll, ei bolisïau, canllawiau, adroddiadau ar berfformiad, a dogfennaeth Archwilio Mewnol. Fe helpodd y rhain ni i ddeall trefniadau llywodraethu'r Cyngor, ei weithrediadau a'r modd y mae'n cydymffurfio.
- **Cyfweliadau** – Fe gynhaliom ni gyfweliadau strwythuredig gyda staff a chynghorwyr sy'n rhan o oruchwylio a rheoli trefniadau gwrth-dwyll, gan gynnwys uwch swyddogion. Fe helpodd y trafodaethau hyn ni i ddeall sut y mae polisïau a gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E–bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.